

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda chyngor yr ysgol yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain**

**Dydd Iau 22 Tachwedd 2018 am 2pm**

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd**

**Yn bresennol:**

Grace Zecca-Hanagan, Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Andrea Richards, Pennaeth rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif  
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant  
Sarah Corcoran, Uwch Ymgynghorydd Her - Consortiwm Canolbarth y De  
15 aelod o gyngor yr ysgol

Croeso a chyflwyniad gan gyngor yr ysgol.

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Croesawodd Gaynor Davies (GD) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Agorodd GD y cyfarfod drwy ofyn am gwestiynau gan gyngor yr ysgol.

**C. *Rydyn ni'n teimlo bod rhagor o ffocws ar wneud arbedion ariannol. Mae chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yn cynnig amgylchedd sy'n gyfforddus i ddisgyblion ac yn cefnogi eu lles.***

A. Cydnabu GD y sylwadau a gafodd eu gwneud a dywedodd y byddai cefnogaeth yn cael ei gynnig i'r disgyblion tra bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud.

Dywedodd GD hefyd y gallai'r newid baratoi disgyblion ar gyfer pan fydden nhw'n symud i Addysg Uwch.

Cafodd ei gadarnhau na fydd newid yn digwydd am resymau ariannol yn unig, ond oherwydd does dim modd cynnig digon o amrywiaeth mewn pynciau ar hyn o bryd yn chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Cardinal Newman gan ei fod mor fach. Ar hyn o bryd mae dim ond 36% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn dychwelyd i flwyddyn 12 ac mae angen i ni ofyn pa fod 64% ddim yn dychwelyd a lle maen nhw'n mynd.

**C. *Dim ond dwy flynedd yn ôl gafodd chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Cardinal Newman ei sefydlu. Mae angen iddo barhau am amser hirach er budd disgyblion yr ysgol.***

A. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y sefyllfa yn Rhondda Cynon Taf i gyd, nid yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yn unig.

- C. Mae llawer o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7,8 a 9 a bydd hyn yn arwain at ddsbarthiadau chweched dosbarth mwy.**
- A. Dydy hyn ddim o reidrwydd yn wir gan fod y data yn dangos bod disgyblion yn dewis llwybr dysgu gwahanol eisoes.
- C. Mae'r addysg yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman o safon uchel iawn. Pe byddech chi'n cael gwared â'r chweched dosbarth, bydd rhai o'r athrawon yma'n gadael.**
- C. Mae cael chweched dosbarth mwy yn golygu y gall disgyblion gael eu colli yn y system a bydden nhw ddim yn cael cefnogaeth aelodau o staff mae ganddyn nhw berthynas agos â nhw.**
- A. Efallai bydd disgyblion yn ffurfio perthnasau agos ag aelodau newydd o staff mewn lleoliadau newydd. Soniodd swyddogion am y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog a Choleg Catholig Dewi Sant.
- A. Esboniodd swyddogion hefyd am y systemau bugeiliol a lles sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog a'r coleg.
- C. Yn 2016, cafodd Ysgol Gyfun Bryncelynnog Arolygiad Estyn lle cafodd ei graddio'n 'ddigonol' am gyflawniad ar hyn o bryd a 'da' o ran tebygrwydd o wella yn y dyfodol. Ydy hyn yn ddigon da i ddisgyblion Ysgol Gyfun y Cardinal Newman?**
- A. Trafododd y swyddogion ganlyniadau Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Trafododd swyddogion hefyd sut dydy'r cynigion ddim yn ymwneud â pha mor dda neu wael y mae ysgol yn cyflawni yn unig, maen nhw hefyd yn seiliedig ar faint y chweched dosbarth. Mae chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yn rhy fach i fod yn gynaliadwy ar hyn o bryd.
- C. Mae goblygiadau o ran cludiant petai disgyblion yn mynychu Coleg Catholig Dewi Sant. Oes modd cyfiawnhau'r amser teithio hir pan fyddwch chi'n ystyried y pwysau eraill sy'n wynebu pobl ifainc?**
- A. Pan mae gyda chi uchelgais, mae gyda chi'r cymhelliant i deithio er mwyn ei gyflawni. Mae'n bellach i deithio ond mae llawer o fyfyrwyr yn dewis yr opsiwn yma er mwyn mynychu sefydliad sydd o ansawdd uchel.
- C. Mae disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yn defnyddio 'system gyfeillio' ar hyn o bryd. Mae hyn yn dod ag ethos teuluol i'r ysgol.**
- A. Amlinellodd y swyddogion fod y systemau yma ar waith mewn ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf sydd heb chweched dosbarth ar hyn o bryd, felly mae cyfleoedd newydd i ddatblygu gwahanol systemau.

**C. Rydyn ni'n teimlo mai Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yw'r ysgol sy'n cyflawni orau yn Rhondda Cynon Taf. Pam mae'r cynigion yma'n cael eu gwneud?**

- A. Cadarnhaodd GD fod Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yn ysgol dda iawn. Serch hynny, nid ei chweched dosbarth hi yw'r mwyaf llwyddiannus yn Rhondda Cynon Taf.

Esboniodd GD pam fod y cynigion wedi cael eu gwneud, h.y. mae chweched dosbarth bach yn cael ei ariannu gan arian Cyfnodau Allweddol 3 a 4, mae'r gost ar gyfer pob disgybl yn uchel ac mae'r dewis o bynciau'n gyfyng. Mae angen i ni ystyried cynnig dewis ehangach o bynciau gyda dosbarthiadau mwy, sydd ddim yn dibynnu ar arian Cyfnodau Allweddol 3 a 4.

**C. Pam gafodd Ysgol Gyfun Bryncelynnog ei dewis?**

- A. Dywedodd y swyddogion bod Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn ysgol dda, sy'n gwella gyda chanlyniadau cryf ac sy'n cael ei harwain gan Dîm Rheoli Uwch cryf. Mae canran y disgyblion sy'n dychwelyd o flwyddyn 11 i flwyddyn 12 bron yn 45%.

**C. Pam dydy Ysgol Gyfun y Cardinal Newman ddim yn cael ei hadnewyddu mewn unrhyw ffordd?**

- A. Mae Ysgolion Ffydd yn ysgolion gwirfoddol sy'n cael eu cynorthwyo, felly maen nhw'n cael eu hariannu'n wahanol i ysgolion a gynhelir. Serch hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi'r ysgol gyda buddsoddiad a bydd yn parhau i gynnal yr adeiladau mewn partneriaeth â'r Esgobaeth.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben am 3pm.